**Pam nad ydyn nhw eisiau i ni wybod ein hawliau?**
**Pam nad ydyn nhw eisiau i ni wybod y gwir i gyd?**

# Y Rheithgor sy'n penderfynu

Yn 1670 carcharodd barnwr reithgor am roi rheithfarn nad oedd yn ei hoffi. Rhyddhawyd y rheithgor a sefydlwyd yn y gyfraith bod yn rhaid i'r llys dderbyn pa bynnag ddyfarniad y bydd rheithgor yn ei ddwyn. Mae plac i goffau hyn yn yr Old Bailey o hyd.




*Paul Clarke, Creative Commons*

**Ond heddiw ni fydd rhai barnwyr yn gadael i fargyfreithwyr ddweud wrth y rheithgor am eu hawliau. Pam?**

**Mae'r llywodraeth wedi bod yn newid y gyfraith i gyfyngu ar y dystiolaeth y gall rheithgor ei chlywed. Pam?**

**Pam y byddai unrhyw lywodraeth yn cael gwared ar dreial gan reithgor, sef traddodiad hynafol o drafod sy'n cynnal democratiaeth?**

Yn ddiweddar mae rhai barnwyr wedi bod yn cyfyngu ar y dystiolaeth y gall rheithgorau ei chlywed. Mae diffynyddion wedi'u hanfon i'r carchar am esbonio pam y gwnaethant gyflawni eu gweithredoedd. Mae rhai barnwyr wedi bygwth cael gwared ar y rheithgor yn gyfan gwbl, neu wedi bygwth anfon rheithwyr i garchar. Yn fwyaf diweddar mae'r Arglwyddes Brif Ustus, y barnwr uchaf, wedi dweud ei bod eisiau i lai o bobl gael treial rheithgor.

Dywedwch wrth eich ffrindiau; **Y Rheithgor sy'n penderfynu,** pobl gyffredin sy'n penderfynu.

Ni allwn golli'r hawl i dreial teg gerbron rheithgor o'n cymheiriaid.

Defend Our Juries

Ymunwch â'r sgwrs genedlaethol yn #defendourjuries

**defendourjuries.org | info@defendourjuries.org**